# Gwyliau yn y Gwaelod

Nid hir fydd y dydd yn dod;
Gwyliau yng Nghantre'r Gwaelod;
Ie , haf i ni i'w fwynhau
'O dan y môr a'i donnau'.

Gwersyll haf dan gwrs y lli,
Heulwen o dan yr heli!
Heulwen lle bu Seithennin
O hyd gynt yn yfed gwin.

Ar wely'r dôr treulio'r dydd;
Hwylio ymysg hen welydd,
Ac yna mynd gan ymwau
Lle unwaith bu perllannau.

Torf o bysgod a blodau
Yn byw rhwng hen feini brau,
A draw o ffin y ddinas
Swae hen glych yn seiniau glas.

Byw mis dan wyneb y môr
A gwneud dim , dim am dymor
O hwyl: bydd yn braf cael bod
Yn ôl yng Nghantre'r Gwaelod.

Donald Evans

**Cwestiynau – Rhan A**

1. Uwch oleuwch deitl y gerdd yn felyn.
2. Uwch oleuwch enw'r bardd yn goch.
3. Uwch oleuwch y geiriau sy'n odli yn wyrdd.
4. Uwch oleuwch bob hanner colon a cholon yn las.

**Cwestiynau – Rhan B**

**Atebwch y cwestiynau yma mewn brawddegau llawn.**

5. Sawl pennill sydd yn y gerdd?

6. Sawl llinell sydd ymhob pennill?

7. Ble mae'r geiriau sy'n odli ym mhob pennill?

8. Beth yn ôl y gerdd fyddech yn medru gweld yng Ngwersyll Haf Cantre'r Gwaelod?

9. Beth yw ystyr y geiriau yma o'r gerdd:

a) lli –
b) heli -
c) perllannau –
d) meini –
dd) brau -

10. O'r wybodaeth yn y gerdd , petasai Gwersyll Haf Cantre'r Gwaelod yn agor a fyddai diddordeb gyda chi i fynd yno i aros? Pam?

11. Beth yw eich hoff linell yn y gerdd? Pam?

12. Beth ydych chi'n meddwl o'r gerdd? Pam?